THOMAS, THOMAS JACOB ('Sarnicol '; 1873 - 1945), athro a bardd

Enw: Thomas Jacob Thomas
Ffugenw: Sarnicol
Dyddiad geni: 1873
Dyddiad marw: 1945
Rhiant: Mary Thomas (née Jacob)
Rhiant: David Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: athro a bardd
Maes gweithgaredd: Addysg; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Richard Bryn Williams

Ganwyd 13 Ebrill 1873 yn ' Sarnicol ', Capel Cynon, ger Llandysul.

Aeth o ysgol ramadeg y Cei Newydd i goleg y Brifysgol, Aberystwyth, ac enillodd radd B.Sc.. Bu'n athro yn Abertyleri a Merthyr cyn mynd yn bennaeth ysgol uwchradd Mynwent y Crynwyr. Ymneilltuodd yn 1931, a byw yn Aberystwyth hyd ei farwolaeth 2 Rhagfyr 1945; claddwyd ym mynwent Bwlch-y-groes, Llandysul.

Enillodd gadair yr eisteddfod genedlaethol yn y Fenni yn 1913, a gwobrwyon eraill o dro i dro am gyfieithiadau, ysgrifau, telynegion, soned ac englyn. Bu'n un o feirniaid yr awdl yn Llanelli (1930), a Bangor (1943). Yr oedd yn lluniwr epigramau medrus, yn ysgolhaig â diddordeb mewn ystyron geiriau, ac yn llenor graenus a fyddai wrth ei fodd yn disgrifio golygfeydd a chymeriadau ac arferion cyfnod ei febyd yng nghyffiniau Banc Siôn Cwilt. Sgrifennodd lawer i gylchgronau, cyhoeddwyd rhai o'i gerddi mewn casgliadau, a bu llawer o adrodd arnynt.

Cyhoeddwyd o'i law *Ar Lan y Môr, a Chaneuon Ereill* (1898); *Stori Shaci'r Gwas* (1906); *Breuddwyd a Sylwedd* (1909); *Amnon* (1909); *Odlau Môr a Mynydd* (1912); *Blodau Drain Duon* (1935); *Storïau ar Gân* (1936); *Catiau Cwta* (1940); *Patrymau Gwlad* (1943) a *Chwedlau Cefn Gwlad* (1944).

Awdur

Y Parchedig Richard Bryn Williams, (1902 - 1981)

Ffynonellau

The Cambrian News and Merionethshire Standard

Cafwyd dyddiad ei eni o hen Feibl y teulu trwy garedigrwydd ei nith

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Jacob Thomas (Sarnicol)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q13131848

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu